# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Meddyg Care (Help at Home) Ltd**

**Meddyg Care**
**11 Bank Place**
**Porthmadog**
**LL49 9AA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

23/02/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Meddyg Care (Help at Home) Ltd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darparwr Cofrestredig | Meddyg Care (Help At Home) Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Hwn oedd yr arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth a roddir iddynt gan wasanaeth Meddyg Care, Help at Home. Caiff y staff gofal eu recriwtio mewn ffordd ddiogel, eu hyfforddi'n dda, a'u cefnogi. Maent yn cydweithio'n effeithiol â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn diwallu amrywiaeth o anghenion gofal a chymorth. Mae hyn yn galluogi'r bobl i barhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Mae cynlluniau personol ar waith ar gyfer y bobl a chânt eu cynnwys yn y broses barhaus o adolygu.

Caiff y gwasanaeth ei reoli a'i oruchwylio'n dda. Mae'r cyfathrebu a'r trefniadau cadw cofnodion yn dda, sy'n dangos y cymorth a ddarperir. Mae prosesau da ar waith i fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn sicrhau bod y bobl a'r staff gofal yn gallu cael gafael ar wybodaeth bwysig.

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bresennol yn y gwasanaeth, yn cyflawni gofynion ei rôl ac yn rhoi cymorth i'r tîm. Mae'r rheolwr a'r cyfarwyddwr gweithrediadau yn ymrwymedig i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth er mwyn darparu gwasanaeth hanfodol ac o ansawdd uchel i'r gymuned.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth y cytunwyd arno ac sydd wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion, gan ystyried eu canlyniadau personol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod wedi meithrin cydberthnasau da â'r staff sy'n eu cefnogi ac sy'n hyderus yn eu gallu. Dywedodd un unigolyn wrthym,*"Staff are very friendly and really respectful,* dywedodd un arall "*staff are helpful and incredibly patient."* Ymgynghorir â'r bobl o ran eu safbwyntiau ac maent yn cymryd rhan yn o broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cyrraedd galwadau gofal ar amser a bod ganddynt ddigon o amser i roi cymorth heb deimlo eu bod yn rhuthro. Dywedodd y bobl fod y cyfathrebu'n dda a bod rhywun ar gael i siarad ag ef bob amser os bydd angen. Dywedodd y bobl wrthym fod y gwasanaeth wedi'u galluogi i aros gartref ac i gynnal eu hannibyniaeth ac na fyddai hyn wedi bod yn opsiwn fel arall o bosibl. Gofynnir i'r bobl am eu hanghenion iaith ac mae gan y darparwr brosesau ar waith i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.

Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal pob maes o'u llesiant. Cânt eu cefnogi i ddefnyddio gwasanaethau gan weithwyr proffesiynol allanol ac mae'r darparwr yn sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw faterion ynghylch iechyd y bobl yn gyflym. Dywedodd y bobl wrthym fod parhad rhwng y gwasanaeth a'r gweithwyr proffesiynol allanol sy'n ymwneud â'u cymorth. Caiff y bobl eu cefnogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gwyliau a'u cymuned leol ac mae gan y darparwr gynlluniau i ddatblygu hyn ymhellach.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau ar waith i gefnogi'r wybodaeth hon a hyrwyddo'r defnydd o brosesau diogelu. Gwnaethom siarad â staff a allai roi gwybodaeth i ni am ddiogelu a sut y byddent yn rhoi gwybod am unrhyw bryderon a oedd ganddynt. Mae'r darparwr yn rhagweithiol o ran cofnodi a rhoi gwybod am bryderon diogelu a hysbysu'r cyrff proffesiynol perthnasol. Caiff cofnodion da eu cadw o unrhyw bryderon a chaiff y wybodaeth hon, ynghyd â'r broses ddiogelu, eu harchwilio yn rheolaidd.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n eu cefnogi i fyw eu bywydau fel y dymunant. Mae gan y darparwr broses dda ar waith i gefnogi pecynnau gofal newydd. Gall y bobl fod yn hyderus bod y gwasanaeth yn gallu diwallu eu hanghenion gan fod rhag-asesiad manwl yn cael ei gynnal gan reolwr profiadol sy'n cydgysylltu â'r bobl, eu teuluoedd, a gweithwyr proffesiynol eraill, gan sicrhau proses bontio ddidrafferth ar gyfer eu gofal. Caiff y wybodaeth o'r rhag-asesiad ei hadolygu yn syth ar ôl i unigolyn ddechrau cael gwasanaeth ac mae'n llywio'r cynllun personol a gaiff ei greu ar y cyd â'r bobl a/neu eu cynrychiolydd. Mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn ystyried dewisiadau, dymuniadau ac anghenion y bobl. Caiff canlyniadau'r bobl eu trafod a'u cofnodi, gan gynnwys gwybodaeth am sut mae'r unigolyn am gael ei gefnogi i gyflawni'r rhain. Mae'r darparwr yn monitro'r cofnodion ar ansawdd y gofal ac yn gwneud newidiadau lle y bo angen i sicrhau bod y fformat a'r wybodaeth yn diwallu anghenion y gwasanaeth a'r unigolyn sy'n cael ei gefnogi.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff profiadol sydd wedi cwblhau cyfnod sefydlu manwl ar gyfer y rôl. Mae'r rheolwr yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau bod y bobl yn cael unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen arnynt, megis y tîm nyrsio ardal, therapyddion galwedigaethol a gwasanaethau gofal sylfaenol. Caiff y gwasanaeth Help at Home ei gefnogi gan uwch-reolwyr a staff nyrsio â phrofiad clinigol sy'n gweithio yng ngwasanaethau eraill y darparwr. Gwelsom lle y bo gan y bobl anghenion penodol o ganlyniad i atgyfeiriadau, caiff y wybodaeth hon ei chofnodi mewn cofnodion gofal a'i diweddaru os bydd unrhyw newidiadau. Dywedodd un unigolyn wrthym fod y gofal a ddarperir gan wasanaeth Help at Home a'r tîm nyrsio ardal yn *“seamless.”*

Gall y bobl ddewis cael cymorth i reoli meddyginiaeth fel rhan o'u pecyn gofal. Mae'r staff cymorth yn cwblhau hyfforddiant ar feddyginiaethau a chânt eu cefnogi gan staff sydd wedi cael hyfforddiant clinigol o fewn y sefydliad. Mae polisi meddyginiaeth ar waith i gefnogi'r staff yn eu rolau. Dywedodd y rheolwr wrthym am gyfyngiadau'r trefniadau rhoi meddyginiaeth mewn gwasanaeth gofal cartref er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael eu meddyginiaeth, a bod y broses yn ddiogel, yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

Mae'r staff yn cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ac maent yn gallu cael gafael ar gyfarpar diogelu personol priodol. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom staff cymorth yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol priodol i baratoi bwyd ar gyfer unigolyn a oedd yn cael ei gefnogi. Mae cofnodion o hapwiriadau yn y ffeiliau recriwtio yn dangos bod yr arfer hon yn cael ei monitro er mwyn datrys unrhyw faterion.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff gwybodaeth am y gwasanaeth ei darparu mewn fformat clir a hygyrch. Mae datganiad o ddiben y gwasanaeth yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i'r bobl ac yn cynnwys gwybodaeth am y polisi cwynion a chysylltiadau allanol, y gall y bobl eu defnyddio er mwyn cael cymorth ychwanegol. Mae cyfres gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau yn cefnogi'r staff yn eu rolau ac yn rhoi arweiniad mewn meysydd fel chwythu'r chwiban, diogelu a meddyginiaeth.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff sy'n cael eu recriwtio'n ddiogel ac sydd wedi cael eu hyfforddi'n dda. Yn ystod yr arolygiad hwn gwnaethom edrych ar ffeiliau recriwtio'r staff a gwelsom eu bod yn cynnwys cofnod manwl o wiriadau cyn cyflogi'r staff a'u cymorth a'u datblygiad parhaus. Mae gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer y staff a chânt eu cefnogi i gwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan er mwyn cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, rheoleiddiwr y gweithlu. Mae'r staff yn ymgymryd â phroses sefydlu fanwl sy'n rhoi'r hyfforddiant a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i gefnogi'r bobl yn ddiogel. Mae'r staff yn cael cyfarfodydd prawf ar adegau amrywiol ar ôl iddynt gael eu penodi i drafod eu cynnydd. Gwelsom fod y staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un yn rheolaidd a chynhelir hapwiriadau i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir. Mae systemau ar waith i sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi a'u bod yn gallu cael gafael ar bobl er mwyn cael cymorth a chefnogaeth pan fo angen. Yn ddieithriad, dywedodd pob aelod o'r staff y gwanethom siarad â nhw wrthym eu bod yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaeth yn cael eu monitro a'u hadolygu yn rheolaidd. Gwelsom archwiliadau o agweddau ar y gwasanaeth a ddarperir i wirio a ydynt yn cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau. Gwelsom fod y prosesau archwilio yn effeithiol wrth nodi meysydd sydd angen eu datblygu. Caiff camau gweithredu sy'n deillio o'r archwiliadau eu cofnodi ar gofnod adolygu ansawdd, sy'n creu cynllun gweithredu i'r tîm â therfynau amser realistig ac unigolion allweddol sy'n gyfrifol am gamau penodol. Mae Unigolyn Cyfrifol y gwasanaeth yn bresennol yn rheolaidd ac yn adolygu sut caiff y gwasanaeth ei weithredu ar y cyfan, gyda chymoth y prosesau sy'n monitro ansawdd ac effeithiolrwydd. Dywedodd y bobl sy'n cael cymorth a'r staff wrthym fod yr Unigolyn Cyfrifol yn hawdd mynd ato ac yn ceisio eu barn.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 02/04/2024